

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 17/2021

DYDDIAD CYHOEDDI: 04/03/2021



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth COVID-19 y DU: Adroddiad proffil Cymru 2020 (Tonnau 22-25)

ISBN Digidol: **978-1-80082-953-4**

© Hawlfraint y Goron

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth COVID-19 y DU: Adroddiad proffil Cymru 2021 (Tonnau 22-25) Chwefror 2021.

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 17/2021.

Ar gael yn:

Barn yr ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediad
Croeso Cymru
Grŵp Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: tourismresearch@gov.wales

Cyflwyniad



Cyflwyniad

Mae VisitEngland, VisitScotland a Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru) wedi comisiynu arolwg wythnosol COVID-19 i dracio barn defnyddwyr i ddeall bwriad domestig i gymryd gwyliau byr dros nos a gwyliau yn y DU a thramor, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhwystrau a'r pryderon sy'n ymwneud â theithio ar hyn o bryd a sut y bydd y rhain yn esblygu dros amser.

Mae'r arolwg yn rhoi sylw i: tebygolrwydd preswylwyr o'r DU yn teithio; pryd a ble y maent yn bwriadu mynd; manylion penodol trip fel mathau o lety a gweithgareddau a wneir a'r math o sicrwydd y maent yn chwilio amdano o'r sector.

Mae'r traciwr yn seiliedig ar sampl o 1,500 o oedolion 16+ oed cynrychioliadol genedlaethol yn y DU, gyda hwb i breswylwyr yr Alban a Chymru i ddarparu samplau wythnosol cadarn. Ailadroddwyd yr arolwg yn wythnosol neu'n bythefnosol gyda'r wythnos gyntaf yn dechrau ar 18 Mai.

Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata o Donnau 22-25. Mae hyn yn seiliedig ar waith maes sy'n digwydd yn ystod y dyddiadau canlynol:

- **Ton 22: 17eg Rhagfyr i 23ain Rhagfyr 2020**
- **Ton 23: 11eg Ionawr i 19eg Ionawr 2021**
- **Ton 24: 25ain Ionawr i 29ain Ionawr 2021**
- **Ton 25: 8fed Chwefror i 13eg Chwefror 2021**

Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (1)

Yn yr adroddiad hwn edrychwn ar broffiliau ac agweddau nifer o gynulleidfaoedd ar wahân:

Mae diffiniadau a ddefnyddir yn cynnwys:

- **Bwriadwyr y Gwanwyn Cymru Gyfan:** Aelodau o'r cyhoedd sy'n nodi y bydd eu gwyliau neu eu gwyliau byr nesaf i'r DU yng Nghymru rhwng Mawrth a Mehefin 2021.
- **Bwriadwyr yr Haf Cymru Gyfan:** Aelodau o'r cyhoedd sy'n nodi y bydd eu gwyliau neu eu gwyliau byr nesaf i'r DU yng Nghymru rhwng Gorffennaf a Medi 2021.

Trwy gydol yr adroddiad rydym yn defnyddio nifer o ddiffiniadau. Er mwyn darparu proffiliau cliriach, rydym hefyd yn proffilio fesul cyfnod bywyd. Mae cyfnodau bywyd yn well nag 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r canlynol:

- **Cyn-nythwyr:** 16-34 oed heb blant ar yr aelwyd
- **Teuluoedd:** 16-64 oed gyda phlant ar yr aelwyd
- **Annibynwyr hŷn:** 35-64 oed heb unrhyw blant ar yr aelwyd
- **Oedran ymddeol:** 65+ oed.

Mewn ymgais i ddeall effaith y brechlyn ar gymryd triapiau, rydym wedi creu dau 'grŵp brechlyn':

- **Pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi derbyn y brechlyn**
- **Pobl sydd wedi ymddeol sydd heb dderbyn y brechlyn**

Pwrpas y ffocws ar Pobl sydd wedi ymddeol yw deall effaith cymryd y brechlyn ar ymddygiad hamdden heb ffactorau 'cysylltiedig ag oedran' yn sgiwio'r canlyniadau. Wedi dweud hynny, nodwch y gallai rhagfarnau oedran fodoli (y rhai hŷn, llai egnïol sydd wedi ymddeol yn fwy tebygol o fod wedi cael y brechlyn na'r rhai iau, mwy egnïol sydd wedi ymddeol).

Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (2)

Er mwyn hwyluso'r dadansoddi defnyddir y diffiniadau llety canlynol:

- **Gwesty/Motél/Tafarndy**
- **Tŷ llety/Gwely a Brecwast/Ffermdy**
- **Llety Hunanddarpar masnachol:** Fflat/Gwesty fflatiau gwyliau rhent neu gartref gwyliau rhent
- **Cartref preifat:** Ail gartref/cyfran gyfnodol neu gartref ffrind/perthynas neu yng nghartref preifat rhywun arall ar sail fasnachol (e.e. Airbnb)
- **Carafán/Gwersylla/Glampio:** Carafán Deithiol neu Gerbyd Gwersylla/Cartref Modur neu Garafán Sefydlog neu Babell neu Glampio/Amgen
- **Llety arall:** Hostel neu fath arall o lety

Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (3)

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys chwe segment agwedd a gynhyrchwyd i ddeall sut mae agwedd cynulleidfaoedd yn wahanol mewn perthynas â COVID-19. Diffinnir y rhain isod:

- **Yn ei chael yn anodd:** Wedi'u taro'n galed gan COVID-19, mae penderfyniadau gweithredol am risg ariannol neu wariant dyheadol yn foethusrwydd na allant ei fforddio – yn syml nid yw'r arian ar gael.
- **Wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd:** Mae poeni am COVID-19 wedi dod â stop dros dro i deithio'r byd i'r mabwysiadwyr cynnar hyderus, uchelgeisiol ariannol hyn.
- **Yn ofalus ond bodlon:** Yn bryderus am COVID-19 ond yn gyffredinol wedi setlo ac yn fodlon â ffordd o fyw cyfyngedig. Nid yw risg, dyheadau moethus a phen ucha'r farchnad yn bresennol ar gyfer yr unigolion cadarn hyn.
- **Amddiffynnol ond Pragmatig:** Wedi'u nodweddu gan bopeth yn gymedrol ar draws gwario arian ac amser hamdden; dull sy'n adlewyrchu eu hagwedd tuag at COVID-19 a'r angen i gydbwyso iechyd y genedl ag iechyd yr economi.
- **Mae bywyd yn mynd yn ei flaen:** Dylai amddiffyn yr economi nawr fod yn ffocws i'r unigolion cefnog hyn sy'n barod i 'fentro i ennill' a thalu premiwm am brofiadau o'r radd flaenaf. Mae risgiau'r firws COVID-19 wedi'u gorddatgan yn eu hamcangyfrif.
- **Llai i'w gollu:** Yn ddigymell ac yn optimistaidd ar gyfer y dyfodol, er bod eu hamgylchiadau presennol yn weddol gyfyngol. Maent yn credu y dylem ddysgu byw gyda COVID-19. Bydd teithio tramor yn ôl ar y cardiau unwaith y bydd cyfyngiadau'n cael eu codi neu pan fydd cyllidebau'n caniatáu.

Canfyddiadau Allweddol



Canfyddiadau allweddol (1)

Hwyliau a hyder teithio cenedlaethol

1. Yn y cyfnod gwaith maes diweddaraf (diwedd mis Chwefror 2021), mae oedolion y DU yn fwy tebygol o nodi 'mae'r gwaethaf wedi mynd heibio' na 'mae'r gwaethaf eto i ddod' am y tro cyntaf ers mis Mai 2020. Mae'r optimistiaeth gynyddol hon yn dilyn mis Rhagfyr a mis Ionawr a adroddodd besimistiaeth uwch y rhagorwyd arno yn unig ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth i Ebrill 2020.
2. Mae rhagolwg mwy cadarnhaol yn cyd-fynd â lefelau cysur cynyddol yn cynnal gweithgareddau bob dydd fel siopa, bwyta mewn bwyty neu deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ystod y mis nesaf. Fodd bynnag, er gwaethaf y teimlad hwn, mae lefelau cysur yn parhau i fod yn sylweddol is na'r rhai yr adroddwyd arnynt o Haf 2020 hyd at ddechrau mis Rhagfyr.
3. Yn 6.5 allan o 10 prin y mae'r hwyliau cenedlaethol wedi newid ers mis Mai 2020, ac nid yw'r mwyafrif yn disgwyl i fywyd ddychwelyd mewn unrhyw ffordd sy'n agos at normal tan fis Hydref eleni.
4. Mae disgwyliadau ceidwadol ynghylch dychwelyd i normalrwydd yn gyrru hyder teithio isel - nid tan fis Awst y mae mwy na hanner oedolion y DU yn credu y byddai trip domestig dros nos yn mynd rhagddo. Cyfyngiadau ar deithio gan y llywodraeth yw'r dylanwad mwyaf ar yr hyder isel hwn, er bod cyfrannau sylweddol hefyd yn dyfynnu ei bod yn anghyfrifol teithio a bod ganddynt bryderon ynghylch dal COVID-19.
5. Mae cyfraddau optimistiaeth a hwyliau ar eu huchaf ymhlith oedolion o oedran ymddeol, wedi'u gyrru gan nifer uchel y cyfnod bywyd hwn sydd wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn COVID-19.
6. Fodd bynnag, nid yw rhagolygon cadarnhaol Pobl sydd wedi ymddeol wedi trosi eto i lefelau cysur uchel gan wneud gweithgareddau bob dydd ar gyfer y cyfnod bywyd hwn, na hyder mewn gallu mynd ar drip – mae teuluoedd a chyn-nythwyr yn parhau i sgorio uchaf yn yr ardaloedd hyn ac yn gyfrifol am fwyaf y bwriadwyr teithio.
7. Prin yw'r dystiolaeth y bydd y brechlyn yn arwain at hwb ar unwaith mewn ymddygiad hamdden. Er bod Pobl sydd wedi ymddeol a gafodd y brechlyn cyntaf yn fwy cadarnhaol am y dyfodol, dim ond lefelau cysur ychydig yn uwch y maent yn eu nodi gyda gweithgareddau bob dydd, a dim ond ychydig yn fwy tebygol y byddant o fwriadu mynd ar drip yn y gwanwyn neu haf. Wedi dweud hynny, mae'r rhwystrau i fynd ar dripiâu ymysg Pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi'u brechu yn dra gwahanol i'r rhai sydd wedi ymddeol nad ydynt wedi'u brechu. Maent yn sylweddol fwy tebygol o ddyfynnu 'nid yw'n gyfrifol teithio yn y cyfnod hwn' ac yn sylweddol llai tebygol o nodi 'Mae gen i bryderon ynghylch dal COVID-19'. Mae hyn yn awgrymu, os bydd negeseuon y llywodraeth yn dechrau hyrwyddo teithio, y gallai eu hyder gynyddu.

Canfyddiadau allweddol (2)

Bwriadau tripiâu sydd ar ddod

1. Mae 15% o oedolion y DU yn rhagweld trip dros nos yn y DU y gwanwyn hwn, gan godi i 27% yr haf hwn. Mae preswylwyr o Gymru ychydig yn llai tebygol o ragweld trip (14% a 24% yn y drefn honno). Mae cyfran oedolion y DU a Chymru sy'n cynllunio trip haf dros nos yn 2021 eisoes yn uwch na'r rhagfynegiadau trip ar gyfer haf 2020 ym mis Gorffennaf y llynedd.
2. Yn gyson ag adroddiadau blaenorol, mae'r bwriad i fynd ar drip domestig dros nos yn y gwanwyn a'r haf ar ei uchaf ymhlith 'teuluoedd' a 'chyn-nythwyr' tra bod grwpiau oedran hŷn yn llai tebygol o fwriadu mynd ar drip yn y cyfnodau amser hyn. Mae gan y segmentau COVID llai gwrth-risg fwriad uwch i fynd ar dripiâu yn y Gwanwyn, er bod hyn yn llai yn yr Haf.
3. De Orllewin Lloegr yw'r gyrchfan fwyaf poblogaidd ar gyfer trip gwanwyn a haf, 25% o bobl y DU yn cynllunio trip dros nos yno yn y Gwanwyn, a 27% yn yr haf. Mae Cymru yn gyrchfan arfaethedig ar gyfer 9% yn y gwanwyn a 10% yn yr haf. Fodd bynnag, lleiafrif yn unig sydd eisoes wedi archebu eu trip yn y naill gyfnod neu'r llall, felly mae potensial i'r gyrchfan o ddewis newid.
4. Mae bron i hanner bwriadwyr y gwanwyn a'r haf sy'n byw yng Nghymru yn debygol o aros yng Nghymru ar gyfer eu trip dros nos, gyda thua 3 o bob 10 yn bwriadu teithio i Dde Orllewin Lloegr. Mae hyn yn amlwg yn tynnu sylw at bwysigrwydd estyn allan i'r farchnad leol. Wedi dweud hynny, mae mwyafrif llethol bwriadwyr i Gymru yn parhau i ddod o'r tu allan i Gymru - Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Canolbarth Lloegr y rhanbarthau sydd â'r tueddiad uchaf i ymweld.
5. Mae pobl sy'n bwriadu ymweld â Chymru yn y gwanwyn a'r haf yn fwy tebygol na phoblogaeth y DU (a bwriadwyr y DU) o fod yn deuluoedd ac mewn graddau cymdeithasol C1C2. Mae nifer yr achosion o dripiâu gyda phlant neu oedolion ifanc hefyd yn uwch, yn enwedig yn yr haf lle maent yn 58% o bartïon (o gymharu â 42% o fwriadwyr y DU).
6. Mae mwyafrif helaeth y tripiâu dros nos i Gymru yn y gwanwyn a'r haf yn debygol o fod ar gyfer 'gwyliau', yn fwy felly nag yng ngweddill y DU lle mae ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau yn fwy cyffredin. Mae tripiâu gwanwyn yn debygol o fod yn gymysgedd gyfartal o egwyliau byr a thripiâu hirach, gyda thripiâu hirach yn dominyddu tripiâu haf.
7. Mae bwriadwyr i Gymru yn y gwanwyn a'r haf fel ei gilydd yn fwyaf tebygol o ragweld y bydd eu trip mewn 'tref arfordirol/glan môr draddodiadol', ac yna 'cefn gwlad neu bentref' ac 'arfordir gwledig'. Mae bwriadwyr i'r DU yn sylweddol fwy tebygol o fwriadu ymweld â 'dinas neu dref fawr'.

Canfyddiadau allweddol (3)

8. Ystyrir ystod lawn o fathau o lety gan Fwriadwyr i Gymru yn ystod y Gwanwyn, ond yn y Gwanwyn mae 'carafanau/gwersylla' yn dominyddu - ar 51%, mae 21 pwynt canran yn uwch na'r opsiwn a ffefrir nesaf o 'hunanmarlwyo masnachol'. Gyrrir nifer uchel y tripiâu gwersylla haf gan awydd i aros mewn 'carafán statig', 'glampio/llety amgen' a 'pabell'.
9. Mae'r gwariant a ragwelir ar gyfartaledd yn gyson ymhlith bwriadwyr i Gymru yn ystod y Gwanwyn a'r Haf ar £738 a £748 yn y drefn honno. Er gwaethaf nifer cymharol is o ymweliadau â ffrindiau a theulu, mae gwariant cyfartalog tripiâu i Gymru yn is na thripiâu i'r DU, yn enwedig yng nghyfnod yr haf.
10. Mae'r achosion uchel o raddau cymdeithasol C1C2, ffafriaeth gref ar gyfer mathau o lety gwerth da am arian ac awgrymiadau gwariant cyfartalog disgwylidiedig is yn awgrymu bwriadwyr i Gymru sy'n sensitif o ran pris, wedi'u tanlinellu gan 'canslo am ddim' fel yr amod pwysicaf ar gyfer archebu llety y gwanwyn hwn.

Tripiâu Busnes

1. Mae 7% o oedolion y DU mewn cyflogaeth yn bwriadu mynd ar drip busnes dros nos erbyn Mehefin 2021, o'i gymharu â 5% o oedolion sy'n gweithio sy'n byw yng Nghymru. 'Cyfarfod' yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros drip dros nos (cyfarfodydd o lai na 6 o bobl yn mynegeo'n uwch), ac yna adeiladu tîm.
2. Mae oedolion y DU sy'n cynllunio trip busnes dros nos yn rhagweld cryn dipyn yn llai o dripiâu o'i gymharu â'r arferol rhwng nawr a Mehefin 2021. Y rhai mewn rolau rheoli uwch sydd fwyaf tebygol o ragweld mwy o'r tripiâu hyn, er bod tripiâu 'llai' yn dal i ddominyddu eu hymatebion.
3. Canslo (39%) yw'r prif reswm dros beidio â bwrw ymlaen â thripiâu busnes dros nos, yn sylweddol uwch na 'gohirio' (25%) - er gyda'i gilydd mae hyn yn rheswm dros 55%. 'Dewis personol oherwydd pryderon cyfredol ynghylch COVID' yw'r ail reswm a nodwyd fwyaf dros lai o dripiâu, gyda thua 1 o bob 5 yn nodi dewisiadau amgen digidol.


Hwyliau cenedlaethol




Derbyn y brechlyn a bwriadau

- O ganol mis Chwefror, roedd 15% o oedolion y DU a 9% o oedolion Cymru, a arolygwyd, wedi derbyn dos cyntaf brechlyn COVID-19, gan godi i 44% ymhlith 'Pobl sydd wedi ymddeol'.
- Mae mwyafrif llethol y boblogaeth yn bwriadu cael y brechlyn - tua 7 o bob 10 cyn gynted ag y gallant, gan ostwng i oddeutu 1 o bob 2 cyn-nythwyr a 3 o bob 5 teulu.

Ffigur 1. Derbyn y brechlyn a bwriadau, Canran, Ton 25, y DU a Chymru.



Ffigur 2. Derbyn y brechlyn a bwriadau, Canran, Ton 25, y DU a Chymru.




Sut ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n ymateb pan fydd brechlyn ar gael? Sylfaen: Holl ymatebwyr i'r DU: n = 1,760; Holl ymatebwyr i Gymru n = 201; Cyn-nythwyr n = 465; Teuluoedd n = 488; Annibynnwyr Hŷn n = 463; Rhai sydd wedi ymddeol n = 341. Nodyn: Mae niferoedd brechlyn yn cwmpo allan yn naturiol ac efallai nad ydyn nhw'n adlewyrchu ffigurau'r llywodraeth. *Ni ddangosir ffigurau o dan 3%.

Canfyddiadau'r sefyllfa mewn perthynas â COVID-19

- O ganol mis Chwefror (Ton 25), roedd cyfran oedolion y DU sy'n nodi 'mae'r gwaethaf wedi mynd heibio' yn uwch na'r rhai sy'n nodi 'mae'r gwaethaf eto i ddod' am yr eildro yn unig ers mis Mawrth 2020. Mae'r teimlad diweddaraf yn nodi symud arwyddocaol o besimistiaeth ddiwedd mis Rhagfyr/dechrau mis Ionawr.


Ffigur 3. Canfyddiad o'r sefyllfa mewn perthynas â COVID-19, Tonnau 1-25, y DU a Chymru.




Canfyddiadau o'r sefyllfa mewn perthynas â COVID-19

- Pobl sydd wedi ymddeol yw'r cyfnod bywyd sydd fwyaf tebygol o gredu 'mae'r gwaethaf wedi mynd heibio', 31% yn nodi hyn o'i gymharu â 24% ar gyfartaledd. 'Pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn COVID' yw'r rhai mwyaf optimistaidd, 38% yn credu 'mae'r gwaethaf wedi mynd heibio' o'i gymharu â 27% o'r 'rhai sydd wedi ymddeol sydd heb gael y brechlyn'. Mae preswylwyr o Gymru ychydig yn fwy tebygol o gredu bod y gwaethaf eto i ddod.

Ffigur 4. Canfyddiad y sefyllfa ynghylch COVID-19, Tonnau 24-25*, Canran y DU a Chymru.



Ffigur 5. Canfyddiad y sefyllfa ynghylch COVID-19 yn ôl cyfnod bywyd, Tonnau 24-25, Canran, y DU.




C7: O ran sefyllfa Coronefeirws yn y DU a'r ffordd y bydd yn newid yn ystod y mis i ddod, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch barn orau? Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU. n = 3,518; Holl ymatebwyr Cymru n = 409; Cyn-nythwyr n = 933; Teuluoedd n = 981; Annibynnwyr Hŷn n = 939; Pobl sydd wedi ymddeol n = 658; Pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn n = 200; Pobl sydd wedi ymddeol sydd heb gael y brechlyn n = 458 * Dwy don wedi'u cyfuno i gynhyrchu meintiau sylfaen mwy.

Hwyliau cenedlaethol

- Ar ôl cwmp ym mis Mawrth 2020, mae'r Hwyliau cenedlaethol wedi aros yn gymharol sefydlog ers canol mis Ebrill - mae preswylwyr o'r DU yn tueddu i sgorio eu hwyliau rhwng 6.4 a 6.7 (mae hwyliau preswylwyr o Gymru yn amrywio mwy ond gyrrir hyn yn rhannol gan feintiau sylfaen sampl arolwg is). Er bod cyhoeddiadau cenedlaethol yn tueddu i effeithio ar optimistiaeth (gweler y sleidiau blaenorol), maent yn cael effaith isafol ar hwyliau.


Ffigur 6. Hwyliau presennol allan o 10, Tonnau 1-25, Cyfartaledd, y DU a Chymru.




Hwyliau cenedlaethol

- Mae pobl sydd wedi ymddeol wedi adrodd yn gyson yr hwyliau uchaf trwy gydol y pandemig, er gwaethaf eu lefelau risg uwch sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae hyn yn parhau i fod yn wir yn y don ddiweddaraf o ymchwil, y cyfnod bywyd 'pobl sydd wedi ymddeol' sydd fwyaf tebygol o sgorio eu hwyliau fel 7-10 allan o 10. Er gwaethaf arddangos mwy o optimistiaeth, nid yw pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn yn fwy tebygol na phobl sydd wedi ymddeol sydd heb gael y brechlyn i sgorio eu hwyliau fel 7-10 allan o 10. Wedi dweud hynny, maent yn llai tebygol o sgorio eu hwyliau fel 0-4 allan o 10. Mae cyn-nythwyr yn dangos hwyliau is na'r segmentau eraill.

Ffigur 7. Hwyliau presennol allan o 10, Canran, Tonnau 24-25, y DU a Chymru.




Ffigur 8. Hwyliau presennol allan o 10, Canran, Tonnau 24-25, y DU.



Lefel cyfforddusrwydd wrth gynnal gweithgareddau

- Mae lefelau cyfforddusrwydd gyda 'mynd am dro mewn parc gwledig neu lwybr lleol' wedi aros yn gyson uchel trwy gydol y pandemig, gan ostwng o dan 80% ar dri achlysur yn unig. Yn y don ddiweddaraf, mae 83% yn gyffwrddus yn gwneud y gweithgaredd hwn.
- Mae cyfforddusrwydd â gweithgareddau dan do wedi amrywio - ar ôl codi'n raddol o fis Mai, fe wnaethant gyrraedd uchafbwynt a sefydlogi o haf 2020 (Ton 13) hyd at ddechrau mis Rhagfyr pan wnaethant ollwng yn sylweddol yn dilyn cyhoeddiadau am straen newydd o COVID a chyfnod clo newydd. Mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu bod cyfforddusrwydd yn dechrau codi eto.


Ffigur 9. Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau unigol, Ddim yn gyfforddus iawn ac yn weddol gyfforddus, Canran, Tonnau 1-25, y DU.



Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau gyda 'chyfforddusrwydd cymedrol'

- Mae'r cyfartaledd cyfforddusrwydd yn tanlinellu'r amrywiadau gyda gweithgareddau dan do. Mae'n nodedig bod lefelau cysur yng Nghymru yn tueddu i olrhain islaw'r lefelau ar draws y DU. Mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu bod cyfforddusrwydd yn dechrau codi eto ar ôl gostwng ar ddechrau'r cyfnod clo ym mis Ionawr 2021.


Ffigur 10. Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau unigol, Ddim yn gyfforddus iawn a gweddol gyfforddus, Canran cyfartaledd, Tonnau 1-25, y DU a Chymru.




Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau gyda 'chyfforddusrwydd cymedrol'

- Er gwaethaf bod y cyfnod bywyd gyda'r optimistiaeth fwyaf a'r sgôr hwyliau uchaf, pobl sydd wedi ymddeol yw'r lleiaf tebygol o deimlo'n gyffyrddus yn gwneud gweithgareddau bob dydd, yn enwedig 'bwyta mewn bwyty' a 'theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus'. Mae lefelau cyfforddusrwydd annibynwyr hŷn - nad ydynt yn dangos optimistiaeth uchel na lefelau hwyliau - hefyd yn gymharol isel.
- Mae'n nodedig nad yw pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn ond ychydig yn fwy tebygol o deimlo'n gyfforddus â 'gweithgareddau bob dydd', ond maent yn dangos mwy o hyder am fwyta mewn bwyty a theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Ffigur 11. Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau yn ôl cyfnod bywyd, Ddim yn gyfforddus iawn a gweddol gyfforddus, Canran, Tonnau 24-25, y DU.



Ffigur 12. Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau yn ôl statws brechlyn, Ddim yn gyfforddus iawn a gweddol gyfforddus, Canran, Tonnau 24-25, y DU.



VB11. Yn fras, pa mor gyfforddus neu anghyfforddus fydddech chi'n teimlo i wneud y canlynol yn ystod y mis nesaf?

Cyn-nythwyr n = 933; Teuluoedd n = 981; Annibynnwyr Hŷn n = 939; Pobl sydd wedi ymddeol n = 658; Pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn

200 n = 200; Pobl sydd wedi ymddeol sydd heb gael y brechlyn n = 458 * Dwy don wedi'u cyfuno i gynhyrchu meintiau sylfaen mwy.




Canfyddiadau pryd y bydd pethau'n dychwelyd i normal

- Dim ond 1 o bob 4 (24%) o'r boblogaeth sy'n disgwyl i fywyd ddychwelyd 'rhywbeth yn agos at normalrwydd' erbyn mis Gorffennaf eleni, gan godi i 31% erbyn mis Awst a 42% erbyn mis Medi. Nid tan fis Hydref i fis Rhagfyr y mae mwyafrif yn rhagweld rhywfaint o normalrwydd.
- Mae canfyddiadau o bryd y bydd normalrwydd yn dychwelyd ymysg cyfnodau bywyd yn tueddu i adlewyrchu lefelau cysur - cyn-nythwyr a theuluoedd yn fwy tebygol o ragweld normalrwydd erbyn mis Gorffennaf. Mae'n nodedig bod 'pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn' yn rhagweld normalrwydd yn gynt na phobl sydd wedi ymddeol sydd heb gael y brechlyn.

Tabl 1. Normalrwydd erbyn mis Gorffennaf yn ôl is-grŵp.

Ffigur 13. Canfyddiadau cronus o pryd y bydd pethau'n dychwelyd yn 'agos at normalrwydd'. Canran gronnu Tonnau 24-25, y DU a Chymru.




Cynulleidfa	%
Cyn-nythwyr	29%
Teuluoedd	31%
Annibynnwyr hŷn	18%
Pobl sydd wedi ymddeol	19%
Pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn	22%
Pobl sydd wedi ymddeol sydd heb gael y brechlyn	17%

C16: O ystyried yr hyn rydych chi'n ei wybod heddiw, pryd ydych chi'n meddwl y bydd bywyd yn dychwelyd i ryweth yn agos at normalrwydd? Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU. n = 3,518; Holl ymatebwyr Cymru n = 409; Cyn-nythwyr n = 933; Teuluoedd n = 981; Annibynnwyr Hŷn n = 939; Pobl sydd wedi ymddeol n = 658; Pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn n = 200; Pobl sydd wedi ymddeol sydd heb gael y brechlyn n = 458 * Dwy don wedi'u cyfuno i gynhyrchu meintiau sylfaen mwy.


Segmentau agweddol gan breswylwyr (gweler y dudalen diffiniadau am ragor o wybodaeth)

- Mae tua 3 o bob 5 o boblogaeth y DU a thua dwy ran o dair o boblogaeth Cymru yn rhan o segmentau COVID sy'n pryderu neu sydd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig (gofalus ond yn fodlon, ar hyn o bryd yn gyfyngedig ac yn ei chael yn anodd). Mae'r darlun yn amrywio'n sylweddol yn ôl cyfnod bywyd - mae cyfnodau bywyd iau yn llawer llai tebygol o ddisgyn i'r segmentau pryderus neu yr effeithir arnynt. Mae 'cyn-nythwyr' a 'theuluoedd' yn llai gwrth-risg, y ddau yn cael eu dominyddu gan y segment 'llai i'w golli'. Nid yw brechu wedi symud statws segment ymysg pobl sydd wedi ymddeol.
- Pobl sydd wedi ymddeol yw'r rhai mwyaf tebygol o ddisgyn i'r segment 'gofalus ond bodlon', gyda'r brechlyn yn cael yr effaith leiaf bosibl.

Ffigur 8b. Dadansoddiad o'r boblogaeth yn ôl segmentau COVID Canran, Tonnau 24-25, y DU a Chymru.



Ffigur 8b. Dadansoddiad o'r boblogaeth yn ôl segmentau COVID yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Tonnau 24-25, y DU.




Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU. n = 3,518; Holl ymatebwyr Cymru n = 409; Cyn-nythwyr n = 933; Teuluoedd n = 981; Annibynnwyr Hŷn n = 939; Pobl sydd wedi ymddeol n = 658; Pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn n = 200; Pobl sydd wedi ymddeol sydd heb gael y brechlyn n = 458 * Dwy don wedi'u cyfuno i gynhyrchu meintiau sylfaen mwy.


Segmentau ariannol ac effaith ariannol COVID-19

- Mae 16% o boblogaeth y DU a 18% o boblogaeth Cymru yn ystyried eu hunain wedi 'cael eu taro'n galed yn ariannol' gan y pandemig, gyda thua 1 o bob 10 yn disgrifio eu hunain fel 'gwell eu byd nag o'r blaen'. Ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn y ffigurau hyn ers dechrau'r pandemig.
- Mae COVID-19 wedi effeithio ar gyflogaeth bron i hanner preswylwyr y DU a 2 o bob 5 o drigolion oed gwaith Cymru - ffyrlo ac incwm is y mwyaf cyffredin.

Ffigur 16. Dadansoddiad o breswylwyr yn ôl segmentau ariannol, Carnan, Tonnau 24-25, y DU a Chymru.



Ffigur 17. Effaith cyflogaeth COVID-19, Canran, Tonnau 24-25, Y rhai o oedran gweithio yn y DU a Chymru.




C17. Pe bai'n rhaid i chi ddewis, pa un o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio'ch teimladau orau ar hyn o bryd? VB8b: Gan feddwl am eich gwaith a'ch amgylchiadau ariannol, pa un, os o gwbl, o'r canlynol sydd wedi digwydd i chi o ganlyniad i'r pandemig COVID-19? Holl ymatebwyr y DU. n = 3,518; Holl ymatebwyr Cymru n = 409;

Segmentau ariannol yn ôl segmentau COVID

- 'Caled eu byd', 'llai i'w golli' a 'bywyd yn mynd yn ei flaen' yw'r segmentau sydd fwyaf tebygol o fod wedi cael eu taro'n galed yn ariannol gan y pandemig. Fodd bynnag, mae gan 'llai i'w golli' ac 'mae bywyd yn mynd yn ei flaen' (y mae hamdden yn flaenoriaeth iddynt), incwm cartref cymharol uchel hefyd (ac mae oddeutu 1 o bob 8 yn well eu byd) sy'n awgrymu efallai na fydd eu gwariant ar driprau yn cael ei effeithio.

Ffigur 16b. Dadansoddiad o breswylwyr yn ôl segmentau ariannol yn ôl segmentau COVID, Canran, Tonnau 24-25, y DU.




C17. Pe bai'n rhaid i chi ddewis, pa un o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio'ch teimladau orau ar hyn o bryd? Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU. Yn ofalus ond yn fodlon n = 757; Cyfyngedig ar hyn o bryd n = 1118; Caled eu byd n = 1220; Amddiffynnol ond pragmatig n = 391; Llai i'w golli n = 1469; Mae bywyd yn mynd yn ei flaen n = 325

Effaith ariannol yn ôl segmentau COVID

- Y segmentau iau 'llai i'w golli' ac 'mae bywyd yn mynd yn ei faen' yw'r rhai mwyaf tebygol o fod wedi gweld effaith ar eu cyflogaeth gan COVID-19 mewn rhyw ffordd, gan fynegio uchaf ar nifer yr achosion o ffyrlo, incwm is ac absenoldeb di-dâl/disgwyddiad. Fodd bynnag, dylid nodi, er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, bod y segmentau hyn yn nodi incwm cymharol uchel, ac mae hamdden yn flaenoriaeth.

Ffigur 17b. Effaith COVID-19 ar gyflogaeth yn ôl segmentau COVID, Canran, Tonnau 24-25, y DU.



VB8b: Gan feddwl am eich gwaith a'ch amgylchiadau ariannol, pa un, os o gwbl, o'r canlynol sydd wedi digwydd i chi o ganlyniad i'r pandemig COVID-19? Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU. Gofalus ond bodlon n=757; Cyfyngedig ar hyn o bryd n=1118; Caled eu byd n=1220; Amddiffynnol ond pragmatig n=391; Llai i'w golli n=1469; Mae bywyd yn mynd yn ei flaen n=325


Hyder o ran teithio



Hyder yn y gallu i gymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU

- Mae llai na thraean o oedolion y DU a chwarter oedolion Cymru yn hyderus y byddai trip dros nos yn y DU yn mynd rhagddo ar unrhyw bwynt yn ystod y Gwanwyn hwn (Mawrth i Fehefin). O fewn misoedd yr haf (Gorffennaf i Fedi) mae hyder yn codi, er nad tan fis Awst y mae mwy na hanner oedolion y DU yn hyderus, ac nid tan fis Medi y mae mwyafrif o oedolion Cymru yn hyderus.
- Mae preswylwyr o Gymru yn sylweddol llai hyderus na preswylwyr o'r DU hyd at fis Awst eleni.

Ffigur 18. Hyder mewn mynd ar drip dros nos i'r DU ar draws ystod o fisoedd gwahanol, Canran net sy'n hyderus iawn ac yn weddol hyderus, Tonnau 24-25, y DU.




CVB7a newydd. Hoffem i chi ddychmygu eich bod wedi archebu gwyliau neu wyliau byr yn y DU ym mhob un o'r chwe chyfnod amser a restrir isod. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cyfredol, pa mor hyderus ydych chi y byddech chi'n gallu mynd ar y triapiau hyn? Holl ymatebwyr y DU. n = 3,518; Holl ymatebwyr Cymru n = 409

Rhesymau dros beidio â theimlo'n hyderus yn mynd ar dripiâu gwanwyn yn y DU

- 'Cyfyngiadau ar deithio gan y llywodraeth' yw'r prif reswm dros ddiffyg hyder mewn tripiâu domestig dros nos yn mynd yn eu blaenau yng ngwanwyn 2021 ymhlith trigolion y DU a Chymru (gyda rhesymau eraill sy'n gysylltiedig â chyfyngiadau hefyd yn ddylanwadol). Dilynir hyn gan 'nid yw'n gyfrifol i deithio' ac 'mae gen i bryderon ynghylch dal COVID-19'. Mae pob un o'r rhesymau hyn yn sgorio'n uwch ymhlith preswylwyr o Gymru. Mae 'cyllid personol' yn rhwystro i oddeutu 3 o bob 10.

Ffigur 19. Rhesymau dros beidio â bod yn hyderus am deithio yn y gwanwyn (Mawrth i Mehefin), Canran, Tonnau 24-25, y DU a Chymru.




CVB8a. Pa rai o'r ffactorau canlynol sy'n cyfrannu at eich ymdeimlad o 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' ynglŷn â chymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU? Holl ymatebwyr y DU. n = 1,440; Holl ymatebwyr Cymru n = 174

Rhesymau dros beidio â theimlo'n hyderus yn mynd ar dripiâu haf yn y DU

- Mae'r tri phrif rheswm dros beidio â theimlo'n hyderus am dripiâu haf yr un fath â'r rhai a roddir ar gyfer tripiâu gwanwyn - gyda chyfyngiadau ar deithio, pryderon ynghylch dal Covid ac nid yw'n gyfrifol teithio fel y prif resymau. Fodd bynnag, mae nifer yr achosion yn is nag ar gyfer tripiâu yn y Gwanwyn. Yn nodedig, mae preswylwyr o Gymru yn fwy tebygol o nodi nad yw'n gyfrifol teithio a chyllid personol fel rhesymau dros beidio â bod yn hyderus i deithio yn yr haf.

Ffigur 20. Rhesymau dros beidio â bod yn hyderus ynglŷn â theithio rhwng Gorffennaf a Medi, Canran, Tonnau 24-25, y DU a Chymru.




CVB8a. Pa rai o'r ffactorau canlynol sy'n cyfrannu at eich ymdeimlad o 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' ynglŷn â chymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU? Holl ymatebwyr y DU. n = 1,077; Holl ymatebwyr Cymru n = 127

Hyder yn y gallu i gymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU

- Yn gyson â'u lefelau cyfforddusrwydd isel yn cynnal gweithgareddau bob dydd, mae pobl sydd wedi ymddeol ac annibynwyr hŷn yn sylweddol llai tebygol na chyn-nythwyr a theuluoedd o deimlo'n hyderus y byddai trip domestig dros nos yn mynd yn ei flaen rhwng mis Mawrth a mis Medi. Mae'r bwlch yn arbennig o fawr yn y gwanwyn, gan gau i raddau erbyn mis Medi.

Ffigur 21., Hyder wrth fynd ar drip dros nos yn y DU ar draws ystod o wahanol fisoedd yn ôl cyfnod bywyd, Canran net sy'n hyderus iawn ac yn weddol hyderus, Tonnau 24-25, y DU.

■ Cyn-nythwyr ■ Teuluoedd ■ Annibynnwyr Hŷn ■ Oed Ymddeol




CVB7a newydd. Hoffem i chi ddychmygu eich bod wedi archebu gwyliau neu wyliau byr yn y DU ym mhob un o'r chwe chyfnod amser a restrir isod. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cyfredol, pa mor hyderus ydych chi y byddech chi'n gallu mynd ar y tripiâu hyn? Cyn-nythwyr n = 933; Teuluoedd n = 981; Annibynnwyr Hŷn n = 939; Pobl sydd wedi ymddeol n = 658

Rhesymau dros beidio â theimlo'n hyderus yn mynd ar dripiâu yn y DU

- Mae pob cam bywyd yn dyfynnu 'cyfyngiadau ar deithio gan y llywodraeth' fel y prif reswm dros hyder isel mewn tripiâu gwanwyn domestig yn y dyfodol. Fodd bynnag, fel mewn tonnau blaenorol, rhoddir rhai gwahaniaethau mewn rhesymau eraill a roddir. Mae cyn-nythwyr yn sylweddol fwy tebygol na chyfnodau bywyd eraill o ddyfynnu 'llai o bethau i'w gwneud/lleoedd i ymweld â nhw' a 'chyllid personol'; Mae 'pobl sydd wedi ymddeol' yn fwy tebygol o ddyfynnu 'Mae gen i bryderon ynghylch dal COVID-19'. Mae teuluoedd yn llai tebygol o nodi llai o gyfleoedd i fwya/yfed allan fel rheswm dros beidio â bod yn hyderus wrth fynd ar dripiâu, ond yn fwy tebygol o nodi bod gwyliau blynyddol cyfyngedig ar gael.
- Mae'r patrwm rhesymau ymysg cyfnodau bywyd yn gyson rhwng Gorffennaf a Medi.

Ffigur 22. Rhesymau dros beidio â bod yn hyderus ynglŷn â theithio o fis Mawrth i fis Mehefin yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Tonnau 24-25, y DU.




CVB8a. Pa rai o'r ffactorau canlynol sy'n cyfrannu at eich ymdeimlad o 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' ynglŷn â chymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU? Cyn-nythwyr n = 255; Teuluoedd n = 292; Annibynnwyr Hŷn n = 306; Pobl sydd wedi ymddeol n = 222

Hyder yn y gallu i gymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU

- Nid yw pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn ond ychydig yn fwy hyderus y byddai trip domestig dros nos yn y gwanwyn yn mynd yn ei flaen, gyda hyder yn gymharol gyfartal hyd yn oed yn ystod misoedd yr haf. Mae hyn yn awgrymu ymhellach na fydd y brechlyn ar ei ben ei hun yn rhoi hwb awtomatig i ymddygiad hamdden ac mae angen adfer hyder wrth deithio o hyd.

Ffigur 23. Hyder wrth fynd ar drip dros nos yn y DU ar draws ystod o wahanol fisoedd yn ôl statws brechlyn, Canran net yn hyderus iawn ac yn weddol hyderus, Tonnau 24-25, y DU.




CVB7a newydd. Hoffem i chi ddychmygu eich bod wedi archebu gwyliau neu wyliau byr yn y DU ym mhob un o'r chwe chynnod amser a restrir isod. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cyfredol, pa mor hyderus ydych chi y byddech chi'n gallu mynd ar y tripiâu hyn? Pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn n = 200; Pobl sydd wedi ymddeol sydd heb gael y brechlyn n = 458

Rhesymau dros beidio â theimlo'n hyderus yn mynd ar dripiâu yn y DU

- Yn gyson â'r holl is-grwpiau eraill, cyfyngiadau ar deithio gan y llywodraeth yw'r prif reswm nad yw pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi'u brechu a heb eu brechu yn hyderus y bydd teithio yn y Gwanwyn yn mynd yn ei flaen. Fodd bynnag, mae pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn yn sylweddol llai tebygol o ddyfynnu 'pryderon ynghylch dal COVID-19' - i'r gynulleidfa hon 'nid yw'n gyfrifol teithio yn y cyfnod hwn' ac 'mae gen i anesmwythyd cyffredinol ynglŷn â theithio' yn bwysicach. Mae hyn yn awgrymu, pan fydd cyfyngiadau'r llywodraeth yn cael eu dileu a negeseuon yn hyrwyddo ymddygiad hamdden, y bydd 'pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi'u brechu' yn dod yn fwy hyderus ynghylch mynd ar dripiâu dros nos.

Ffigur 24. Rhesymau dros beidio â bod yn hyderus ynglŷn â theithio o fis Mawrth i fis Mehefin yn ôl statws brechlyn, Canran, Tonnau 24-25, y DU.



CVB8a. Pa rai o'r ffactorau canlynol sy'n cyfrannu at eich ymdeimlad o 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' ynglŷn â chymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU? Pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn n = 86; Pobl sydd wedi ymddeol sydd heb gael y brechlyn n = 156


**Bwriadau tripiâu
sydd ar ddod**



Pryd y rhagwelir mynd ar wyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU

- Mae 1 o bob 7 oedolyn yn y DU a Chymru yn rhagweld mynd ar drip dros nos yn y DU y Gwanwyn hwn, gan godi i oddeutu 1 o bob 4 yn yr haf ac 1 o bob 5 o fis Hydref ymlaen. Mae tua hanner naill ai 'ddim yn gwybod ond hoffent fynd ar drip' neu 'ddim yn bwriadu mynd ar drip'. Mae'n werth nodi bod cyfran oedolion y DU a Chymru sy'n cynllunio trip haf dros nos eleni eisoes yn uwch na rhagfynegiadau triplau ar gyfer haf 2020 mewn cyfweliadau a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf y llynedd.

Ffigur 25. Cyfran sy'n rhagweld trip dros nos yn y DU ym mhob cyfnod amser, Canran, Tonnau 24-25, y DU.




CVB2a. Wrth feddwl am y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf yn y DU rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr. Tonnau 22-25 y DU. poblogaeth n = 3,518;

Poblogaeth Cymru n = 409

Cyfran sy'n rhagweld trip dros nos yn y Gwanwyn (Mawrth i Mehefin)

- Yn gyson ag adrodd o ddechrau'r pandemig, mae'r bwriad i fynd ar drip domestig yn y cartref dros nos ar ei uchaf ymhlith 'teuluoedd' a 'cyn-nythwyr'. Nid yw'n ymddangos bod cael brechiad wedi rhoi hwb i'r bwriad i fynd ar drip dros nos yn y tymor byr. Amddiffynnol ond pragmatig, llai i'w golli ac mae bywyd yn mynd yn ei flaen yw'r tair segment sy'n fwyaf tebygol o fynd ar drip yn y gwanwyn (er eu bod yn ofalus ond mae 'bodlon' yn dilyn yn agos).

Ffigur 26. Cyfran sy'n rhagweld trip dros nos i'r DU yn y gwanwyn yn ôl is-grŵp, Canran, Tonnau 24-25, y DU.




CVB2a. Wrth feddwl am y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf yn y DU rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn? Sylfaen: Cyn-nythwyr n = 933; Teuluoedd n = 981; Annibynnwyr Hŷn n = 939; Pobl sydd wedi ymddeol n = 658 Pobl sydd wedi ymddeol sydd wedi cael y brechlyn n = 200; Pobl sydd wedi ymddeol sydd heb gael y brechlyn n = 458 Holl ymatebwyr y DU. Gofalus ond bodlon n=757; Cyfyngedig ar hyn o bryd n=1118; Caled i'w gael n=1220; Amddiffynnol ond pragmatig n=391; Llai i'w golli n=1469; Mae bywyd yn mynd yn ei flaen n=325

Lle cynllunir aros ar drip i'r DU y gwanwyn nesaf

- De Orllewin Lloegr yw'r gyrchfan ddewisol yn y DU ar gyfer pob person sy'n teithio yn y gwanwyn - safle y mae wedi'i dal yn gyson am y 12 mis diwethaf. Cymru yw'r gyrchfan a ffeirir ar gyfer 9% o fwriadwyr i'r DU y gwanwyn hwn, ond mae'n codi i 45% ymhlith preswylwyr o Gymru sy'n cynllunio trip dros nos yn y cyfnod hwn. Mae nifer y bwriadwyr i Gymru sy'n byw yng Nghymru yn uwch nag unrhyw gyfnod dros y 12 mis diwethaf.

Ffigur 27. Lle cynllunir aros ar drip dros nos nesaf yn y DU yn y gwanwyn, Canran, Tonnau 22-25, y DU a Phreswylwyr o Gymru.

■ Holl Fwriadwyr y Gwanwyn (Mawrth i Mehefin) ■ Bwriadwyr y Gwanwyn Preswylwyr o Gymru (Mawrth i Mehefin)




CVB4a. Ble yn y DU ydych chi'n debygol o aros ar y trip nesaf hwn ym mis <?>

